WG35.5.1498

# CWYN YR UNIG

## AR OL EI WRAIG,

SEF

# *JANE POWELL*,

Yr hon a fu farw Mehefin 6fed, 1851,
yn 59 mlwydd oed.

GAN REES POWELL,
(GYNT O'R BRYCHGOED,)
*Pregethwr cynnorthwyol gyda'r Independiaid.*

PONTYPRIDD:
ARGRAFFWYD GAN WILLIAM JONES.
1851.

XRC 5 313239

Duw y lluoedd, ti yw Llywydd,
Bodau a bydoedd oll i gyd ;
Yn dy law mae pob awdurdod,
Gweithiwr hynod wyt o hyd.
Dygaist un o rhwng fy mreichiau,
I'r drag'wyddol drigfan draw,
A'r corph anwylgu gynneu oedd geny',
Wedi ei rhoddi yn rhych y rhaw.

Ffarwel, ffarwel, rhaid oedd 'madael,
Er mor gynes ag mor gu ;
Nid oes gobaith yma imi,
I gael dy gymdeithas di.
O Sian anwyl, ti 'ngadewaist,
Pryd daw'r amser cawn ni gwrdd,
Yn yr ail-fyd heb un gofid,
I gyd-wledda o ddeutu'r bwrdd.

Yr wyf yn gwel'd yn ddigon goleu,
Yr 'wyllys fawr sy'n llywio'r byd,
Ond er hyn 'rwy'n para i deimlo,
Teimlo yn rhyfedd 'rwyf o hyd,
Mae rhyw hiraeth yn fy rhwystro,
I dd'od o'm gofid mawr i ma's,
Nid oes dim a 'ngwnaiff i'n wrol,
Ond rhinweddol ddwyfol ras.

Edrych draw ac edrych yma,
I bob 'stafell yn y tŷ,
Nid yw'n gosod i mi gysur,
'Dim ond gwel'd y man lle bu;
Ond mae'n foddus i mi feddwl,
Iddi fyn'd y'ngolau'r haul,
At y cwm'ni sy'n cyd-ganu,
Ac yn moli Adda'r ail.

Dywedai'n dawel cyn ymadael,
Ai gwedd yn llon mewn teimlad llawn,
Nad oedd ganddi noddfa 'n un-lle,
Ond rhinweddau dwyfol iawn;
Dyna oedd ei gweddi'n gyson,
"Ac a'm ceir i ynddo ef,"
Y man diogel lle mae digon,
I fy nwyn i nef y nef.

Ffarwel blant, a ffarwel briod,
Ffarwel bob-peth yn y byd,
Er mor anhawdd im' i'w madael,
Rhaid rhoi ffarwel i chwi gyd;
Neb ond Iesu'r cyfaill ffyddlon,
Ddaw i'r afon,—digon yw,
Llefwch chwithau am ei 'nabod,
Dyma briod hynod yw.

Madael mae teganau daear,
Colli hawddgar gymar cu,
Mae adgofio ei hawddgarwch,
'Nawr yn dristwch mawr i mi;
Y mae ffrynd a bery'n ffyddlon,
Fu dan hoelion ar y groes,
Hyn i'w 'ngweddi cyn dystewi,
Nerth i'w garu ddyddiau f' oes.

Deugain oed a deg yn dygwydd,
Hefyd naw mlwydd ar ol hyn,
Dyma ei hoedran pan rhow'd i'r graian,
I huno ei hunan yn y glyn.
Hyd y dydd dadseinia 'r udgorn,
Cwyd y teulu i gyd i'r lan,
Yn hardd eu hagwedd mewn hwyl nefolaidd
A phob rhinwedd yn eu rhan.

DIWEDD.

---

*Argraffwyd gan William Jones, Pontypridd.*